*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2024 Rhif (Cy. )

# TAI, CYMRU

# Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 160A(3) o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) ("Deddf 1996"), mae person sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo yn anghymwys i gael dyraniad o lety tai gan awdurdod lleol oni bai ei fod yn dod o fewn dosbarth o bersonau a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. O dan adran 160A(5) caiff Gweinidogion Cymru ragnodi dosbarthau eraill o bersonau o dramor sydd, er nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, yn anghymwys i gael dyraniad o lety tai.

O dan baragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) ("Deddf 2014"), mae person sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo yn anghymwys i gael cymorth tai o dan Bennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf honno oni bai ei fod yn dod o fewn dosbarth o bersonau a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol). O dan baragraff 1(4) caiff Gweinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) drwy reoliadau ddarparu ar gyfer disgrifiadau eraill o bersonau sydd, er nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, yn anghymwys i gael cymorth tai.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2603 (Cy. 257)) ("Rheoliadau 2014") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer pa bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai ac i gael cymorth tai. Mae Rheoliadau 2014 hefyd yn gwneud darpariaeth o ran personau nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth

fewnfudo ond sy'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai.

Mae rheoliadau 3, 5 a 7 yn hepgor cyfeiriadau at Reoliadau Ymaelodaeth Croatia (Mewnfudo ac Awdurdodi Gweithwyr) 2013 (O.S. 2013/1460) sy'n ddiangen bellach gan fod y cyfnod ymaelodi (y cyfnod sy'n dechrau â 1 Gorffennaf 2013 ac sy'n dod i ben â 30 Mehefin 2018) wedi dod i ben.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwystra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996. Mae'n rhagnodi dau ddosbarth ychwanegol o bersonau ("Dosbarth P" a "Dosbarth Q") sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996.

Mae Dosbarth P yn gymwys i bersonau sy'n ddioddefwyr cefnu ar briodas trawswladol ac mae Dosbarth Q yn gymwys i bersonau y byddai amod heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus yn gymwys fel arfer i'w caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, ond mae'r amod hwnnw wedi ei ddileu gan y Swyddfa Gartref.

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 5(1) o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwystra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael cymorth tai o dan Ddeddf 2014. Mae'n rhagnodi dau ddosbarth ychwanegol o bersonau ("Dosbarth Q" a "Dosbarth R") sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath. Mae Dosbarth Q yn cyfateb i Ddosbarth P a fewnosodir gan reoliad 4 ac mae Dosbarth R yn cyfateb i Ddosbarth Q a fewnosodir gan reoliad 4.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2024 Rhif (Cy. )

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | 20 Rhagfyr 2024 |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 160A(3) a (5) a 172(4) o Ddeddf Tai 1996(**1**) ac adran 142(2)(a) a (b) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**2**) a pharagraff 1(2) a (4) o Atodlen 2 iddi.

Yn unol ag adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**3**).

---

(**1**) 1996 p. 52. Mewnosodwyd adran 160A gan adran 14(2) o Ddeddf Digartrefedd 2002 (p. 7); diwygiwyd is-adrannau (3) a (5) gan adran 146(2)(d) ac (e) yn y drefn honno o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 160A(3) a (5) a 172(4) o Ddeddf Tai 1996 (p. 52), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), a'r cofnod mewn perthynas â'r Ddeddf honno yn Atodlen 1 i O.S. 1999/672, fel y'i darllenir yn unol ag adran 17(1) o Ddeddf Digartrefedd 2002. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2014 dccc 7. Gweler adran 99 am y diffiniad o "rhagnodedig".

(**3**) Mae'r cyfeiriad yn adran 142(3) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

## Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2024 a deuant i rym ar 20 Rhagfyr 2024.

## Diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014

**2.** Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

## Diwygiad i reoliad 2

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), hepgorer y diffiniad o "Rheoliadau Ymaelodaeth 2013".

## Diwygiadau i reoliad 3

**4.** Yn rheoliad 3 (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai)—

(a) hepgorer yr "ac" ar ôl paragraff (n);

(b) ar ôl paragraff (o) mewnosoder—

"(p) Dosbarth P – person (P) sydd â chaniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn rhinwedd Atodiad Dioddefwr Cam-drin Domestig o'r Rheolau Mewnfudo(**2**) mewn amgylchiadau pan fo P yn ddioddefwr cefnu ar briodas trawswladol(**3**); a

(q) Dosbarth Q – person sydd a chaniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu sydd â chaniatâd cyfyngedig i aros ynddi ac, ar ôl gwneud cais i newid amodau, y mae ei amod heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus wedi ei ddileu gan y Swyddfa Gartref yn unol ag adran 3(1)(c)(ii) o Ddeddf Mewnfudo

---

(**1**) O.S. 2014/2603 (Cy. 257) fel y'i harbedwyd ac y'i haddaswyd gan erthygl 5 o O.S. 2015/1272 (Cy. 88) (C. 73) ac a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/698 (Cy. 164), O.S. 2019/1041 (Cy. 183), O.S. 2019/1149 (Cy. 199), rheoliad 76 o O.S. 2020/1309, rheoliad 26 o O.S. 2020/1372, O.S. 2021/353 (Cy. 105), O.S. 2021/1147 (Cy. 282), O.S. 2022/485 (Cy. 121), O.S. 2023/76 (Cy. 14), O.S. 2023/611 (Cy. 92) ac O.S. 2023/1211 (Cy. 214).

(**2**) Gosodwyd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 23 Mai 1994 (TC 395), fel y'u diwygiwyd.

(**3**) Mae nodweddion cefnu ar briodas trawswladol wedi eu diffinio a'u nodi ar dudalennau 23-25 o Atodiad Dioddefwr Cam-drin Domestig a gyhoeddwyd ar gyfer staff y Swyddfa Gartref ar 4 Ebrill 2024, fel a ganlyn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/660eba8f63b7f8001fde18ba/Appendix+Victim+of+Domestic+Abuse.pdf.

1971(**1**), ac nad yw'n berson o fewn Dosbarth F na Dosbarth J yn y rheoliad hwn."

**Diwygiadau i reoliad 4**

**5.** Yn rheoliad 4 (personau eraill o dramor sy'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai)—

(a) hepgorer paragraff (2)(c);

(b) ym mharagraff (2)(d), yn lle "(a)-(c)" rhodder "(a) neu (b)".

**Diwygiadau i reoliad 5**

**6.** Yn rheoliad 5(1) (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael cymorth tai)—

(a) hepgorer yr "a" ar ôl is-baragraff (o);

(b) ar ôl is-baragraff (p) mewnosoder—

"(q) Dosbarth Q – person (P) sydd â chaniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn rhinwedd Atodiad Dioddefwr Cam-drin Domestig o'r Rheolau Mewnfudo mewn amgylchiadau pan fo P yn ddioddefwr cefnu ar briodas trawswladol; ac

(r) Dosbarth R – person sydd a chaniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu sydd â chaniatâd cyfyngedig i aros ynddi ac, ar ôl gwneud cais i newid amodau, y mae ei amod heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus wedi ei ddileu gan y Swyddfa Gartref yn unol ag adran 3(1)(c)(ii) o Ddeddf Mewnfudo 1971, ac nad yw'n berson o fewn Dosbarth G na Dosbarth K yn y rheoliad hwn."

**Diwygiadau i reoliad 6**

**7.** Yn rheoliad 6 (personau eraill o dramor sy'n anghymwys i gael cymorth tai)—

(a) hepgorer paragraff (2)(c);

(b) ym mharagraff (2)(d), yn lle "(a)-(c)" rhodder "(a) neu (b)".

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

---

(**1**) 1971 p. 77; amnewidiwyd adran 3(1)(c) gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996 (p. 49) a diwygiwyd is-baragraff (ii) wedi hynny gan adran 58 o Ddeddf Ffiniau'r DU 2007 (p. 30) a chan yr Atodlen iddi.